BRITISH COUNCIL

# 猪

Adnoddau i helpu eich ysgol i ddathlu
Blwyddyn Newydd Tsieineaidd 2019
**Pecyn Addysg Gynradd**





# Cyflwyniad

Yn ôl y Calendr Lloerol Tsieineaidd, bydd Blwyddyn y Mochyn yn dechrau ar 5 Chwefror 2019. Mae'r pecyn addysg hwn ar gyfer ysgolion cynradd yn cynnwys gwybodaeth a gweithgareddau i helpu athrawon a disgyblion i ddysgu mwy am yr ŵyl wanwyn bwysig hon, ac am ddiwylliant ac iaith Tsieina.

Gall eich disgyblion ddarllen stori draddodiadol i ddysgu sut daeth Mochyn yn gyfaill i'r Brenin Mwnci, a dysgu sut mae plant o Tsieina yn cyfeirio at anifeiliaid a synau anifeiliaid drwy ganu Fferm Tad-cu yn Tsieinëeg. Gallwch hefyd ddarllen am bwysigrwydd ymarfer corff i bobl Tsieina fel rhan o fywyd bob dydd, darllen llythyrau gan blant o Tsieina am eu hoff chwaraeon, creu mochyn cadw-mi-gei a choginio rysáit deuluol Tsieineaidd draddodiadol.



## Gŵyl y Gwanwyn Chūn Jié (春节)

Ystyrir mai Gŵyl y Gwanwyn, Chūn Jie (春节) a ddethlir o ddiwrnod cyntaf y mis lloerol cyntaf ymlaen, yw gŵyl bwysicaf y flwyddyn yn niwylliant Tsieina. Yn ystod yr ŵyl, bydd pobl yn cynnal aduniadau teuluol ac yn anrhydeddu eu cyndeidiau. Caiff dawns y llew ei pherfformio'n gyhoeddus a rhoddir amlenni coch gydag arian ynddynt yng ngheg y llew am lwc. Mae'n draddodiadol hefyd i neiniau a theidiau roi amlenni coch gydag arian ynddynt i'w hwyrion a'u hwyresau; gelwir hyn yn yā suì qián. Erbyn hyn, mae'r amlenni yr un mor debygol o fod â chymeriadau cartŵn arnynt â symbolau traddodiadol.

Fyddwch chi'n defnyddio pecyn addysg Blwyddyn y Mochyn i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd? Os felly, rydym am glywed eich straeon. Os oes gennych unrhyw straeon, lluniau neu glipiau ffilm, anfonwch nhw at: schools@britishcouncil.org






## Cynnwys


- Stori Zhū Bājiè page 2
- Tsieinëeg a chaligraffi – enwau anifeiliaid fferm a'u synau page 8
- Diarhebion Tsieineaidd page 14
- Creu Cadw-mi-gei Blwyddyn y Mochyn page 16
- Dysgu mwy am amaethyddiaeth yn Tsiein a choginio rysáit Tsieineaidd draddodiadol page 18
- Ymarfer corff mewn bywyd bob dydd page 20
- Llythyrau gan blant o Tsieina am eu hoff chwaraeon page 22
- Dysgu mwy page 28




UCL Institute of Education

Datblygwyd y cysyniad a'r pecyn gan y British Council. Ysgrifennwyd gan Alison Willmott, Ymgynghorydd Addysg, a James Trapp, Cydlynydd Rhwydwaith Cynradd Sefydliad Ysgolion Confucius y Sefydliad Addysg yng Ngholeg Prifysgol Llundain.

BRITISH COUNCIL

# Stori Zhū Bājiè

**Amcanion dysgu:** Ennyn diddordeb y disgyblion gyda stori draddodiadol o Tsieina a chynnal gweithgareddau i ehangu eu dealltwriaeth a'u diddordeb yn y testun.

**Cysylltiadau â'r Cwricwlwm:** Saesneg a drama.

**Sgiliau craidd a throsglwyddadwy:** Creadigrwydd a dychymyg, cydweithredu a chyfathrebu, meddwl yn feirniadol, llythrennedd digidol.

**Paratoi ac adnoddau:** Bydd arnoch angen: copi o stori Zhū Bājiè a lle i weithgareddau drama.





Roedd Zhū Bājiè 猪八戒 neu Mochyn yn Gymraeg, yn Gadfridog Nefol pwysig o'r enw y Cadlywydd Tian Peng, ac roedd yn gyfrifol am 80,000 o filwyr. Ond fe gododd gywilydd arno'i hun yn y Nefoedd gyda'i farusrwydd, a thrwy boenydio Chang E, Duwies y Lleuad. Cafodd ei daflu i lawr o'r Nefoedd, ac fe laniodd mewn cwt moch. Erbyn iddo gropian allan, roedd wedi'i drawsnewid yn Anghenfil Mochyn.

Er hynny, mae nodweddion o'i gymeriad yn dal i'w gweld pan fydd yn gwasanaethu'r Mynach Bwdhaidd Xuanzang ar ei daith fawr i India, ac mae'n dal yn hoff o fwyta ac yfed gormod, a mynd ar ôl merched. Mae e hefyd yn ddiog iawn. Mae rhinweddau da ganddo hefyd; mae'n amyneddgar, mae'n optimistaidd

ac mae calon dyner ganddo. Rhaca o haearn â naw pig yw ei arf, sy'n pwyso 5,000 cilogram. Swydd nefol yn Lanhäwr yr Allorau yw ei wobr ar ddiwedd y daith, sy'n golygu ei fod yn gallu bwyta'r bwyd sydd dros ben o'r ebyrth.

Yn gymharol gynnar ar eu taith fawr, bu i Xuanzang a Mwnci gyrraedd fferm lle roedden nhw'n gobeithio treulio'r noson. Cytunodd y ffermwr, Mr Gao, i adael iddyn nhw aros, ond ar yr amod eu bod nhw'n ei helpu gyda phroblem ofnadwy. I ddechrau, doedd e ddim yn hapus i dderbyn nad oedd Mwnci yn ddemon, ac roedd e ar fin gwrthod rhoi lle iddyn nhw gan ddweud ei fod wedi cael digon o drafferth gydag un anghenfil a ddaeth i'w gartref, a doedd e ddim eisiau un arall!



Ni ddangosodd Mwnci ei ddicter, ond fe eglurodd nad oedd e'n anghenfil nac yn ddemon, ac mai fe oedd y Dewin Doeth Uwchlaw Pawb, ac roedd ganddo fwy o bwerau i'w helpu nag y gallai'r ffermwr ei ddychmygu. Fe dawelodd hynny ei feddwl rywfaint, ac felly dyma Mr Gao yn tywys Xuanzang a Mwnci i mewn i'r ffermdy a chynnig rhywfaint o fwyd a diod iddyn nhw wrth iddo adrodd ei stori.

"Mae gan fy ngwraig a minnau dair merch hardd, Tegeirian Pêr, Tegeirian Gwyrddloyw a Tegeirian Glas. Roedd y ddwy hynaf wedi'u haddo yn wragedd i deuluoedd cyfagos ers iddyn nhw fod yn ifanc, ond roedden ni eisiau dod o hyd i ŵr i Tegeirian Glas a fyddai'n dod i fyw ar y fferm ac yn helpu i edrych ar ein holau pan fydden ni'n hŷn. Tua tair blynedd yn ôl, daeth dyn ifanc a golygus yma, yn dweud ei fod wedi colli ei fam a'i dad, a'i fod yn chwilio am deulu newydd. Dywedodd mai ei gyfenw oedd Zhu (sy'n golygu mochyn) a'i fod yn dod o dre bellennig o'r enw Fuling. Roedd yn barod i wneud yr holl waith ar y fferm pe bai'n cael cartref newydd yn dâl, a phe bai Tegeirian Glas yn ei briodi. Roedd e'n ddyn smart a bonheddig, ac felly fe dderbyniais ei gynnig.

I ddechrau, roedd e'n ymddangos yn berffaith. Byddai'n gwneud y gwaith i gyd, yn aredig, yn hau ac yn cynaeafu heb ddim cymorth. Ond yn araf deg, dechreuodd pethau newid. Mewn gwirionedd, dechreuodd e newid! Tyfodd ei drwyn yn grwn ac yn fawr, fel swch mochyn, tyfodd ei glustiau'n fwy ac yn fwy, tyfodd gwrych ar ei wâr, a daeth i edrych yn debycach ac yn debycach i fochyn! Hefyd, roedd llawer o chwant bwyd wedi bod ganddo erioed, ond tyfodd ei chwant yn enfawr, ac fe fwytodd nes bod dim dimau ar ôl ganddon ni. Dechreuodd ddefnyddio pwerau hudol i wneud i gerrig hedfan drwy'r awyr, ac i greu gwyntoedd ofnadwy. Yn waeth na dim, fe herwgipiodd e Tegeirian Glas a'i chloi yn un o adeiladau'r fferm. Dydyn ni heb ei gweld hi ers chwe mis a dydyn ni ddim yn gwybod os ydy hi'n dal yn fyw hyd yn oed."



"Peidiwch â phoeni!" Meddai Mwnci. "Dyma'r union fath o beth rydw i'n arbenigo ynddo. Beth am fynd i achub eich merch, yna gallwch chi ofalu am fy Meistr, ac mi siarada i gyda Mr Zhu!"

Felly i ffwrdd â Mwnci i'r adeilad lle roedd y ferch yn garcharor, torrodd y drws i lawr ac fe ddychwelodd Tegeirian Glas at ei thad. Unwaith roedd y ferch yn ddiogel, defnyddiodd Mwnci bwerau hudol i droi ei hun i edrych yn union fel y ferch, ac aeth i mewn i'r gwely i aros am yr anghenfil.

Pan ddychwelodd Mochyn, roedd Mwnci'n esgus cysgu, a phan ddaeth y creadur draw i roi sws iddo, fe fwrodd Mwnci'r anghenfil yn glamp ar ei swch.

"Pam wyt ti mor flin gyda fi?" gofynnodd yr anghenfil. "Dw i wedi gweithio'n galed ar fferm dy dad, ac wedi rhoi popeth rwyt ti eisiau i ti!"
"Nid dyna'r broblem", meddai Mwnci. "Daeth fy nhad yma heddiw, ac fe gawson ni ffrae fawr. Mae e eisiau cael dy wared di, ac mae e wedi anfon am ddewin pwerus i ddod i'w helpu."
"Pa ddewin pwerus? Mochyn o Ogof Grisiau'r Cwmwl ydw i, a dw i mor fawr a chryf, does dim ofn yr un dewin arna i!"
"Mae fy nhad yn dweud mai ei enw yw y Dewin Doeth Uwchlaw Pawb, a'i fod yn gallu curo unrhyw anghenfil, hyd yn oed ti!"
"Os yw hynny'n wir, dw i'n mynd. Does neb yn ddigon cryf i wynebu dewin pwerus fel y Dewin Doeth Uwchlaw Pawb, dim hyd yn oed fi!" meddai Mochyn.
"Rhy hwyr!" gwaeddodd Mwnci gan newid yn ôl i'w siâp arferol. "Dw i yma'n barod!"

Gafaelodd yng nghot Mochyn, ond llwyddodd Mochyn i ddianc o'i afael, ac roedd wedi dianc trwy'r drws mewn chwinciad.

"Dim ots!" Meddai Mwnci wrtho'i hun, "dywedodd e wrtha i ble mae e'n byw!"
A gyda hynny, aeth Mwnci ar ôl Mochyn wrth iddo ddianc i Ogof Grisiau'r Cwmwl.
Pan gyrhaeddodd Mwnci, roedd Mochyn yn dod allan o'r ogof yn chwifio'i arf hudol yn ei law - rhaca naw pig.
"Well i ti fod yn ofalus", rhybuddiodd Mochyn. "Nid rhaca arferol mo hon; y Dewin Doeth Laozi ei hun roddodd y rhaca hon i mi, a does neb yn gallu ei gwrthsefyll!"
"Dw i ddim yn dy gredu di!" Atebodd Mwnci. "Dangosa i fi!"

Wrth gwrs, doedd Mochyn ddim yn gwybod bod Mwnci wedi gwrthsefyll pob pŵer y gallai'r Nefoedd ei daflu ato, felly dychmygwch ei syndod pan mai'r unig effaith a gafodd wrth daro pen Mwnci â'r rhaca oedd cawod o wreichion. Doedd Mwnci heb ei niweidio o gwbl.

"Iawn, iawn, dw i'n ildio!" Llefodd Mochyn. "Ond beth sy'n denu dewin mor wych â'r Dewin Doeth Uwchlaw Pawb i fferm ddiflas Mr Gao?"
"Dw i ar fy ffordd i India gyda fy Meistr i gasglu ysgrythurau a dod â nhw adre."



Wrth glywed hyn, taflodd Mochyn ei raca i'r llawr a chwympodd i'w bengliniau o flaen Mwnci.

"Os felly, pam na ddwedaist ti wrtha i? Fe drodd y Bodhisattva Guanyin* fi tuag at Fwdhaeth rai blynyddoedd yn ôl, ac fe anfonodd fi yma i aros am dy Feistr. Roeddwn i wedi aros cyhyd, fe ddiflasais i a meddwl y baswn i'n cael rhywfaint o hwyl. Ond gan fod y Meistr yma o'r diwedd, arweinia fi ato i fi gael talu gwrogaeth iddo."

"Os yw hynny'n wir", meddai Mwnci yn ei led-gredu, "yna mae'n rhaid i ti dyngu llw dy fod di'n dweud y gwir."

Addawodd Mochyn ei fod yn dweud y gwir, ac mai'r cyfan roedd yn dymuno ei wneud oedd gwasanaethu Xuanzang ar ei genhadaeth. Felly tynnodd Mwnci ddarn o wallt o'i ben ei hun, a'i droi yn rhaff i glymu Mochyn gyda mymryn o hud. Yna cydiodd yn Mochyn wrth ei glust, a chwyrlio drwy'r awyr yn ôl i fferm Mr Gao. Ar ôl iddo egluro popeth i Xuanzang, gorchmynnodd ei feistr iddo ryddhau Mochyn. Plygodd Mochyn o flaen Xuanzang, gan addo ei wasanaethu'n ffyddlon. Yna trodd tuag at Mwnci a phlygu o'i flaen yntau hefyd, ac addawodd y byddai'n gwrando arno am byth, ac y byddai'n ei alw'n Frawd Mawr ac yn Athro. A dyna sut canfu Xuanzang ei ail gydymaith a'i amddiffynnwr ar ei daith fawr.



*Cyfeirir at Bodhisattva Guanyin fel Duwies Trugaredd

Taflen Weithgaredd
# Beth ddigwyddodd yn y stori?


**Gweithgareddau**

Gofynnwch i'r disgyblion ddarllen y stori gyda'i gilydd i ddod o hyd i atebion i'r cwestiynau hyn:

- Beth oedd enwau merched Mr. Gao?
- Allwch chi grynhoi'r newid welodd Mr. Gao yn ymddangosiad ac ymddygiad od y dieithryn?
- Sut defnyddiodd Mwnci ei bwerau hudol i dwyllo a churo Mochyn?
- Yn ôl yr hyn rydych chi wedi'i ddarllen, ydych chi'n meddwl y bydd Mochyn yn cadw at ei addewid?
- Pa dri chwestiwn fyddech chi'n eu gofyn i un o'r cymeriadau yn y stori?
- Beth ydych chi'n meddwl fydd yn digwydd, a pham?



# Taflen Weithgaredd
# **Beth ddigwyddodd yn y stori?**




Techneg ddrama ar gyfer archwilio penblethau y mae cymeriadau mewn stori neu ddrama yn eu hwynebu yw Llwybr Cydwybod. Darllenwch baragraff cyntaf y stori gyda'r disgyblion. Rhannwch y dosbarth yn ddwy linell yn wynebu ei gilydd. Gofynnwch i un person gymryd rôl y ffermwr yn cerdded rhwng y ddwy linell, wrth i bob aelod o'r dosbarth roi cyngor yn dawel ynghylch a ddylai'r ffermwr adael i Xuanzang a Mwnci aros ar ei fferm ai peidio. Pan mae e neu hi yn cyrraedd pen y llinell, gofynnwch iddyn nhw wneud penderfyniad a nodi eu rhesymau. Gallwch ail-adrodd y gweithgaredd hwn ar ddiwedd y stori gyda disgybl arall yn cerdded rhwng y ddwy linell ac yn penderfynu a ddylai'r ddau gydymaith ymddiried yn Mochyn a chaniatáu iddo ddod gyda nhw ar eu taith hir i India.

Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn grwpiau i ysgrifennu drama fer yn ail-ddweud stori Zhū Bājiè. Atgoffwch nhw i ddefnyddio nodweddion sgript ddrama draddodiadol, gan gynnwys rhestr o gymeriadau, disgrifiad byr o'r lleoliad, atalnodi priodol a chyfarwyddiadau llwyfan. Pwysleisiwch bwysigrwydd defnyddio symudiadau araf a dim cyswllt corfforol wrth lwyfannu golygfa ymladd Mwnci a Mochyn. Gallan nhw hefyd ychwanegu cerddoriaeth i greu effaith ddramatig. Ar ôl gorffen eu sgriptiau, gofynnwch i bob grŵp ymarfer a pherfformio fersiynau terfynol eu dramâu o flaen gweddill y dosbarth.

### Gweithgareddau ysgolion partner:

Os ydych chi'n gweithio gydag ysgol bartner, gallech ffilmio eich dramâu a'u dangos i'ch gilydd.

Mae mwy o wybodaeth am Stor'r Brenin Mwnci a thaith wirioneddol Xuan Zang yn llyfryn Blwyddyn y Mwnci gan y British Council, sydd ar gael yma: https://schoolsonline.britishcouncil.org/sites/default/files/monkey_welsh_artwork_v2.pdf

BRITISH COUNCIL

# Fferm Tad-cu
## 王老先生 - wáng lǎo xiānshēng

gyda hē[...]
fan hy[...]

**Amcanion dysgu:** TDysgu geirfa Tsieinëeg sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid, synau anifeiliaid a chân Fferm Tad-cu yn Tsieinëeg. Ymarfer ysgrifennu arwyddion Tsieinëeg.

**Cysylltiadau â'r Cwricwlwm:** Ieithoedd modern, cerddoriaeth, celf a dylunio.

**Sgiliau craidd a throsglwyddadwy:** Cydweithredu a chyfathrebu, creadigrwydd a dychymyg, llythrennedd digidol.

**Paratoi ac adnoddau: Bydd arnoch angen:** Mynediad at y we, copïau o daflen weithgaredd 1, siswrn, cerdyn a deunyddiau celf.

**Enwau anifeiliaid a'u synau**

Gwrandewch ar y ffeiliau sain a helpwch y disgyblion i ymarfer yr eirfa

Ci (狗, *gǒu*) 汪汪 (*wàng wàng*)

Cath (猫, *māo*) 喵 (*miāo*)

Aderyn (鸟, *niǎo*) 唧唧 (*jī jī* )

Hwyaden (鸭子, *yāzi*) 呱呱 (*guāguā*)

Ceiliog (公鸡, *gōngjī* ) 喔喔喔 (*Ō ō ō*)

Iâr (母鸡, *mǔ jī* ) 咯咯 (*gēgē*)

Buwch (牛, *niú*) 哞 (*mōu*)

Dafad/hwrdd/gafr (羊, *yáng*) 咩 (*miē*)

Mochyn (猪, *zhū*) 哼哼 (*hēng hēng*)

Ceffyl (马, *mǎ*) 嘶 (*sī*)

**Gweithgaredd 1**

Gweithgaredd 1 Trafodwch gyda'r disgyblion y synau anifeiliaid maen nhw'n eu cysylltu gyda gwahanol anifeiliaid fferm, ac eglurwch y gall hyn amrywio o wlad i wlad. Er enghraifft, mae plant bach yng Nghymru yn dysgu bod defaid yn dweud mê a bod moch yn sochian. Yn Tsieina, mae plant bach yn dysgu bod defaid yn dweud '*miē*' a bod moch yn dweud '*hēng hēng*'.

Rhannwch yr eirfa a'r synau sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid fferm gyda'r disgyblion.

Gallen nhw ymarfer yr eirfa hon drwy greu a chwarae'r gêm parau ar Daflen Weithgaredd 2 gyda phartner, ac yna symud ymlaen i ddysgu cân Fferm Tad-cu yn Tsieinëeg gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: https://www.youtube.com/watch?v=X-1gyJ-Dq4aA

Pan fyddan nhw'n gallu canu'r gân gyda'r eirfa gywir, gallen nhw ei pherfformio i ddosbarthiadau eraill mewn gwasanaeth.


a hēng
fan draw

BRITISH COUNCIL

# Taflen weithgaredd 3
# **Gêm barau**

**Cyfarwyddiadau**

Torrwch y sgwariau sy'n dangos anifeiliaid a'r eirfa Tsieinëeg, a'u gludo ar garden.

Cymysgwch y cardiau a'u gosod ar y bwrdd wyneb i lawr, mewn rhesi.

Rhaid i bob chwaraewr droi dwy garden am i fyny (un ar y tro).


Os ydych chi'n cael pâr yn dangos llun o'r anifail a'r eirfa gywir, gallwch gadw'r cardiau a chymryd tro arall.





Pan fo chwaraewr yn troi dwy garden nad ydynt yn cyfateb, rhaid troi'r cardiau hynny yn ôl wyneb i lawr (a'u cadw yn yr un lle), a symud ymlaen at y chwaraewr nesaf.

Y chwaraewr sydd â'r mwyaf o barau ar ddiwedd y gêm sy'n ennill. Gallech chi hefyd ddefnyddio'r cardiau i chwarae gêm o snap, gan gyfateb y lluniau gyda'r geiriau Tsieinëeg.







*Gǒu*
wàng wàng

*Māo*
mi   o

*Niǎo*
j   j

*Yāzi*
gu   gu

*Gōngjī*

*Mǔ jī*
g   g

*Niú*
m   u

*Yang*
mi

*Zhū*
h   ng h   ng

*Mǎ*
s



BRITISH COUNCIL

# Taflen weithgaredd 4
# **Tynnwch lun o arwydd Tsieinëeg**

Anogwch y disgyblion i ymarfer ffurfio’r arwydd Tsieinëeg am fochyn gan ddefnyddio’r drefn draddodiadol o un ar ddeg strôc, fel y gwelir yn y darlun.

https://www.youtube.com/watch?v=UP-jiNYg7tDE

**Zhū neu gymeriad y mochyn**


Pan fyddan nhw wedi meistroli’r arwydd hwn, gofynnwch i’r disgyblion ddefnyddio deunyddiau a thechnegau gwahanol i greu fersiwn artistig fawr derfynol yn eu dewis gyfrwng. Gallant ddefnyddio paent, inc a brwsys, deunyddiau collage neu hyd yn oed gymnasteg neu ddawns i gyfleu trefn y strociau.




3


4


5




8


9


10


11

# Arwyddion a diarhebion

家 jiā Caiff yr arwydd Tsieinëeg am 'cartref/teulu' ei ffurfio o'r hen arwyddion am 'fochyn' o dan 'do'. Yn yr hen ddyddiau, y mochyn oedd y ffynhonnell fwyd fwyaf gwerthfawr i deuluoedd gwerinol, a byddai da byw yn cael ei gadw'n agos i'r cartref. Byddai moch yn byw mewn cytiau ar fuarth y teulu, neu o dan y tŷ ei hun, a allai fod wedi'i godi ar stiltiau.

Mae anifeiliaid wedi'u cynnwys mewn llawer o ddiarhebion Tsieinëeg traddodiadol. Rhannwch y diarhebion canlynol gyda'ch disgyblion. Beth maen nhw'n feddwl yw'r ystyr y tu ôl i bob un? Gofynnwch iddyn nhw ddewis un ddihareb, ei hegluro ac ymarfer ysgrifennu'r arwyddion Tsieinëeg ar ei chyfer. Allan nhw feddwl am ddiarhebion traddodiadol yn seiliedig ar anifeiliaid o'u diwylliant eu hunain? Rhannwch y rhain gydag ysgol bartner os oes gennych chi un.



## 守株待兔 *shǒu zhū dài tù*

Gorwedd wrth y goeden yn aros am sgwarnog

Ystyr: aros yn afrealistig i rywbeth da ddigwydd heb ymdrechu – yn ôl y stori, gwelodd ffermwr sgwarnog yn bwrw yn erbyn coeden ar ddamwain a chwympo'n anymwybodol un tro, ac felly roedd modd i'r ffermwr ei dal yn hawdd a mynd â hi'n ôl adref i fwyta. O'r diwrnod hwnnw ymlaen, yn lle gweithio yn ei gaeau, eisteddai'r ffermwr wrth y goeden yn aros i sgwarnog arall fwrw yn ei herbyn.

## Gweithgareddau ysgolion partner:

Os ydych chi'n gweithio gydag ysgol bartner, gallech greu ffilmiau byrion i'w cyfnewid, yn dangos y disgyblion yn canu Fferm Tad-cu mewn Tsieinëeg a'u ffurfiannau artistig o gymeriad Zhū a diarhebion eraill.

## 亡羊补牢 *wáng yáng bǔ láo*

Trwsio'r gorlan ar ôl colli'r defaid

Ystyr: Rydyn ni'n gyfarwydd â dihareb debyg, sef cau'r drws ar ôl i'r ceffyl ddianc, ond mae pobl Tsieina'n dehongli pethau'n wahanol. Mae ein fersiwn ni'n golygu gweithredu'n rhy hwyr, ond mae'r ddihareb Tsieinëeg yn cael ei dehongli fel nad yw hi byth yn rhy hwyr i gymryd camau rhagofalus, rhag ofn i'r un peth ddigwydd eto.

## 虎头蛇尾 *hǔ tóu shé wěi*

Pen teigr, cynffon neidr

Ystyr: dechrau'n gryf, ond gorffen yn wan

BRITISH COUNCIL


Taflen weithgaredd 5
# Creu mochyn cadw-mi-gei

**Amcanion dysgu:** Dilyn cyfarwyddiadau i greu mochyn cadw-mi-gei papier-mâché a phryd o fwyd Tsieineaidd traddodiadol.
**Cysylltiadau â'r Cwricwlwm:** Saesneg, Dylunio a thechnoleg, Mathemateg, Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd.
**Sgiliau Craidd:** Cydweithredu a chyfathrebu, creadigrwydd a dychymyg, datrys problemau.


Yn aml, mae plant Tsieina yn cael arian gan eu teulu a'u ffrindiau adeg Gŵyl y Gwanwyn. Beth am wneud mochyn cadw-mi-gei gyda papier-mâché ar gyfer y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd fel rhan o'r dathliadau Blwyddyn y Mochyn?

Bydd arnoch angen:


- Balŵns
- Paent a brwsys
- Glud PVA
- Bocsys wyau
- Hen bapur newydd
- Cwpanau te neu fowlenni
- Tâp masgio
- Siswrn
- Llygaid gwgli
- Glanhawyr pibelli
- Siswrn neu gyllell grefft




**1.** Chwythwch eich balŵn i'r maint rydych chi'n dymuno i gorff eich mochyn cadw-mi-gei fod.





**5.** Paentiwch eich mochyn a'i addurno. Gallech chi ychwanegu'r arwydd Tsieinëeg rydych chi wedi'i ddysgu am fochyn ar yr ochr.




**2.** Torrwch siapau o’r bocs wyau ar gyfer clustiau, swch a thraed y mochyn, a glynwch nhw i’r balŵn gyda thâp masgio.




**3.** Rhwygwch eich papur newydd neu’ch papur tusw yn stribedi, a glynwch nhw ar y balŵn gan ddefnyddio cymysgedd o lud a dŵr. Gallwch osod y balŵn i orffwyso ar gwpan te neu fowlen pan fyddwch chi’n gwneud hyn.



**4.** Unwaith i chi ychwanegu tair neu bedair haen, gadewch y balŵn mewn lle cynnes tan iddo sychu a throi'n galed.




**6.** Ar ôl iddo sychu, ychwanegwch un haen drwchus o lud dros eich mochyn cadw-mi-gei, ac arhoswch tan iddo sychu’n galed a nes ei fod yn edrych fel farnais.




**7.** Ychwanegwch ddarn o lanhäwr pibell wedi’i droelli i greu cynffon, a llygaid gwgli.




**8.** Gofynnwch i oedolyn eich helpu chi i dorri twll arian ar eich mochyn cadw-mi-gei gan ddefnyddio siswrn neu gyllell grefft.

# Rysáit ar gyfer porc/cyw iâr neu geuled ffa gyda phupur gwyrdd



Porc wedi'i dro-ffrio gyda phupur gwyrdd yw un o brydau cartref mwyaf poblogaidd Tsieina. Gallwch newid y porc am gyw iâr, ond gwnewch yn siŵr eich bod chi'n defnyddio clun cyw iâr, ac nid y frest, i gael blas a gwead gwell. Gallai llysieuwyr a figaniaid ddefnyddio tofu (mae dull gwahanol ar ddiwedd y rysáit) a'i weini gyda reis.

Reis yw cnwd pwysicaf Tsieina, ac mae'n fwyd cyffredin i gyd-fynd â phrydau, yn enwedig yn Ne Tsieina lle mae'r hinsawdd yn addas ar gyfer y cnwd hwn. Caiff y rhan fwyaf o reis ei dyfu yn nelta Zhu Jiang ac yn nhaleithiau Yunnan, Guizhou a Sichuan. Yn y gogledd a'r gorllewin, lle nad yw'r tywydd mor lawiog, mae ffermwyr yn dueddol o dyfu gwenith i greu nwdls a bara. Mae'r ddau gnwd wedi eu tyfu yn y wlad ers miloedd o flynyddoedd.

## Cynhwysion

200g o ysgwydd porc/cluniau cyw iâr oddi ar yr asgwrn, neu 300g o dofu cymharol gadarn
3-4 pupur gwyrdd wedi'u sleisio'n denau a'r hadau wedi'u tynnu
¼ pupur coch (dewisol i ychwanegu lliw), fel uchod
2 ewin garlleg, wedi'u torri'n fân
1 llwyaid de o saws soi ysgafn
¼ cwpanaid o olew llysiau i goginio

## Marinâd

1 llwyaid fwrdd o saws soi ysgafn
4 llwyaid fwrdd o ddŵr neu stoc cyw iâr
½ llwyaid de o halen
¼ llwyaid de o bupur gwyn
½ llwyaid de o siwgr
½ llwyaid de o win coginio Tsieineaidd (neu gallwch ddefnyddio sieri sych)
3 llwyaid de o flawd corn
2 lwyaid de o olew llysiau



## Dull

- Sleisiwch y porc/cyw iâr yn denau a’i roi mewn powlen gyda holl gynhwysion y marinâd, heblaw am y blawd corn a’r olew llysiau. Cymysgwch yn drylwyr a’i adael am o leiaf 15 munud.
- Pan fyddwch chi'n barod i ddechrau coginio, ychwanegwch y blawd corn, ei gymysgu’n drylwyr, ac yna’r olew llysiau. Cymysgwch eto.
- Gwresogwch eich wok dros fflam uchel tan ei fod yn boeth iawn. Ychwanegwch yr olew llysiau ac aros 30 eiliad. Ychwanegwch y porc a'r marinâd a’i goginio, gan droelli am 20-30 eiliad. Os nad yw eich wok yn chwilboeth, coginiwch y porc mewn dau swp. Dylai’r cig fod wedi’i goginio rhywfaint ond heb ei goginio drwyddo.
- Tynnwch y cig o’r wok gyda llwy rychog a’i gadw mewn powlen. Arllwyswch yr olew ond gadewch lwyaid fwrdd yn y wok. Ychwanegwch y garlleg at yr olew sydd ar ôl yn y wok, a ffrïwch nes eu bod yn bersawrus (15-20 eiliad).
- Ychwanegwch y pupur gwyrdd a choch wedi’u sleisio a’u ffrio, gan eu troi nes iddyn nhw ddechrau meddalu mymryn, ond peidiwch â’u coginio nes eu bod yn feddal. Ychwanegwch ychydig o halen fel y dymunwch.
- Rhowch y porc yn ôl yn y wok, ei gymysgu’n drylwyr gyda’r pupur a’i gynhesu drwyddo.
- Dylid ei weini’n boeth gyda reis wedi’i ferwi/stemio.

## Dull gyda cheuled ffa

- Sychwch y tofu a’i dorr’n stribedi trwchus tua 8cm wrth 3cm.
- Gwresogwch eich wok dros fflam uchel tan ei fod yn boeth iawn. Ychwanegwch yr olew llysiau ac aros 30 eiliad. Ffrïwch y sleisiau tofu nes eu bod nhw’n frown euraid ar y ddwy ochr, yna tynnwch nhw o’r wok a’u cadw.
- Arllwyswch yr olew ond gadewch 1 llwy fwrdd yn y wok. Ychwanegwch y garlleg at yr olew sydd ar ôl yn y wok, a ffrïwch nes eu bod yn bersawrus (15-20 eiliad).
- Ychwanegwch y pupur gwyrdd a choch wedi'u sleisio a’u ffrio, gan eu troi nes iddyn nhw ddechrau meddalu mymryn, ond peidiwch â'u coginio nes eu bod yn feddal. Ychwanegwch y saws soi, y gwin coginio, siwgr a phupur gwyn o'r marinâd yn y rysáit porc uchod, ac ychydig bach o halen fel y dymunwch. Ffrïwch gan droi am 30 eiliad.
- Dychwelwch y ceuled ffa i’r wok, ei gymysgu’n drylwyr gyda'r pupur a’i gynhesu drwyddo.
- Dylid ei weini'n boeth gyda reis wedi’i ferwi/stemio.

### Gweithgareddau ysgolion partner:

Os ydych chi’n gweithio gydag ysgol bartner, gallech gyfnewid lluniau o’ch moch cadw-mi-gei a’ch prydau Tsieineaidd.



# Ymarfer corff yn Tsieina

**Amcanion dysgu:** Dysgu am rai o'r ffurfiau poblogaidd o ymarfer corff yn Tsieina.

**Cysylltiadau â'r Cwricwlwm:** Saesneg, Ymarfer Corff, Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd.

**Sgiliau Craidd:** Cyfathrebu a chydweithredu, disgyblion yn arwain.

**Paratoi ac adnoddau:** Bydd arnoch angen mynediad at y we, cerddoriaeth, gofod yn yr awyr agored i ymarfer corff, copïau o'r llythyrau gan blant Tsieina.

## Gwybodaeth ffeithiol i'w rhannu gyda'r disgyblion

Mae ymarfer corff yn bwysig iawn yn Tsieina. Mae llawer o blant Tsieina yn mwynhau chwaraeon ac yn cymryd rhan mewn ymarferion boreuol bob bore yn yr ysgol. Mae'r holl ddisgyblion ac athrawon yn dod at ei gilydd mewn rhesi yn y maes chwarae, ac yn gwneud ymarferion ymestyn i guriad cerddoriaeth, a gaiff ei chwarae dros uchelseinydd. Gallwch weld plant o Tsieina yn cymryd rhan yn eu sesiwn ymarfer corff ddyddiol yn y clip canlynol am ddiwrnod mewn ysgol gynradd yn Tsieina. https://www.bbc.com/bitesize/clips/zdtjmp3



Dmitry Chulov/Shutterstock.com

Petaech chi'n ymweld â Tsieina, byddech hefyd yn gweld pobl o bob oedran yn dod ynghyd mewn gofodau cyhoeddus awyr agored i wneud gwahanol ymarfer corff. Mae hyn yn cynnwys Tai chi (taiji), sy'n fyr am T'ai chi ch'üan, neu Taijiquan (太极拳) a dawnsio ffan. Mae Tai chi yn cynnwys symudiadau araf a chylchog, ac anadlu wedi'i reoli. Mae'n grefft ymladd hynafol o Tsieina, a gaiff ei hymarfer er mwyn hyfforddi i amddiffyn ac er budd i iechyd. Credir bod dawnsio ffan wedi dechrau yn ystod llinach Han oddeutu 200 OC. Mae'n cynnwys symudiadau grŵp strwythuredig, a chaiff ei ddefnyddio i basio straeon a thraddodiadau diwylliant Tsieina ar hyd y cenedlaethau. Mae fersiwn milwrol o'r symudiadau cydlynol hyn i'w gael hefyd, a oedd yn cael ei gynnal gan ddefnyddio arfau fel ymarferion milwrol.

Beth am gymryd hoe fach bob dydd o ddysgu yn yr ystafell ddosbarth am wythnos, a rhoi cynnig ar ymarferion mewn arddull Tsieineaidd i gerddoriaeth? Gallai gwahanol grwpiau o ddisgyblion fod yn gyfrifol am gynllunio'r gerddoriaeth a'r symudiadau bob dydd, ac arwain y dosbarth. Efallai y gallech hefyd drefnu dangosiad o grefft ymladd Tsieineaidd megis Kung Fu neu Tai Chi gan glwb crefft ymladd yn eich ardal.



# Llythyrau gan blant o Tsieina



Ysgrifennwyd y llythyrau canlynol gan blant rhwng 10 a 12 oed mewn ysgolion o wahanol rannau o Tsieina, yn disgrifio eu hoff chwaraeon. Copïwch a rhannu'r llythyrau gyda'r disgyblion, a gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol mewn parau:

- Beth ddigwyddodd i Jony un dydd pan oedd e'n dysgu sut i reidio beic?
- Beth yw enw'r afon yn Shanghai y mae e'n beicio ar ei hyd?
- Allwch chi ddisgrifio'r manteision mae Tommy a Peng yn dweud maen nhw'n eu profi drwy gymryd rhan mewn tennis bwrdd a sglefrio iâ?
- Yn ei lythyr, mae Ma Kaiquan yn crybwyll hanes pêl-droed yn Tsieina a Phrydain. Beth arall allwch chi ei ddysgu am hanes y chwaraeon yma a chwaraeon eraill rydych chi'n eu chwarae?
- Sawl gwaith mae Lucy'n dweud mae hi'n gallu sgipio mewn munud? Rhowch gynnig arni i weld faint allwch chi ei wneud yn yr un faint o amser.
- Beth wnaeth argraff dda ar Amber yn y perfformiad gan y sglefriwr iâ o Siapan, Yuzuru Hanyu? Mae hi hefyd yn dweud yn ei llythyr bod ei Mam wedi dweud wrthi 'Does dim llwybr byr at lwyddiant.' Beth ydych chi'n meddwl mae hyn yn ei olygu? Ydych chi'n meddwl bod hyn yn berthnasol i bob chwaraeon? Eglurwch pam.

Anogwch y disgyblion i ddewis eu hoff lythyr a drafftio ymateb yn disgrifio eu hoff chwaraeon nhw, yn egluro beth maen nhw'n ei wneud, ble maen nhw'n mynd, a pham maen nhw'n mwynhau'r math hwn o ymarfer corff yn benodol.

### Cynnal diwrnod dathlu Blwyddyn y Mochyn

I ddathlu Gŵyl Gwanwyn Tsieina a Blwyddyn y Mochyn, beth am wahodd ffrindiau a theulu i'r ysgol i rannu'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu, i'ch gwylio'n perfformio ac yn canu? Gallech eu dysgu i ffurfio arwyddion Tsieinëeg, darllen eich llythyrau am eich hoff chwaraeon a chael gwledd Tsieineaidd drwy rannu canlyniadau eich gwaith coginio.

BRITISH COUNCIL

Beicio

Annwyl gyfeillion:

Helo! Rwy'n ddisgybl o Ddosbarth Pedwar Blwyddyn Pump, Ysgol Arbrofol Yangjing-juyuan(洋泾−菊园实验学校). Rwy'n falch iawn o ysgrifennu'r llythyr hwn atoch chi.

Nawr rydw i eisiau cyflwyno fy hoff chwaraeon i chi. Beicio yw'r chwaraeon. Mae gen i feic glas a du gyda theiars gwrth-lithro. Ces i'r beic yn anrheg gan fy rhieni ar fy mhen-blwydd. Mae e'n edrych yn cŵl iawn, ac rwy'n ei hoff'n fawr. Dechreuais i feicio pan oeddwn i'n bump. I ddechrau, roeddwn i'n cael fy mrifo o hyd. Weithiau roeddwn i'n bwrw carreg, weithiau roeddwn i'n cwympo, ac un tro cwympais yn y pwll yn agos at fy nhŷ! Ar ôl ymarfer dydd ar ôl dydd, roeddwn i'n gallu reidio fy meic yn dda bythefnos yn ddiweddarach.



Nawr, rwy'n beicio ar hyd Afon Huangpu o hyd yn fy amser hamdden. Mae gwair, coed a blodau hardd ar hyd Afon Huangpu. Mae llawer o adeiladau godidog ar ddwy ochr yr afon hefyd. Pan rwy'n beicio ar y Llwybr Beicio ar hyd yr afon, rwy'n teimlo fel llewpart yn rhedeg yn rhydd dros y gwair. Os cewch chi gyfle i deithio i Shanghai rhyw ddydd, cofiwch fynd i feicio ar hyd Afon Huangpu.

Nid yn unig mae beicio yn dda i'r iechyd, ond mae hefyd yn gyfleus. Rwy'n beicio dair gwaith yr wythnos, ac mae'n fy nghadw i'n iach. Mae hefyd yn gyfleus reidio beic i'r ysgol. Byddai cerdded i'r ysgol yn cymryd hanner awr i fi, ond deg munud rydw i ei angen ar y beic. Mae gen i freuddwyd y gallwn i reidio fy meic i deithio o gwmpas y byd yn y dyfodol. Efallai y gallwn i ymweld â chi ym Mhrydain pan fydda i'n teithio. Ydych chi'n hoffi beicio?

Yn gywir, Jony Zhao
27ain Hydref 2018

Annwyl gyfeillion,

Zhang Yiming ydw i, a fy enw Saesneg yw Tommy. Rydw i yn Nosbarth 5 Blwyddyn 5. Rwy'n astudio yn Ysgol Gyngor Chongqing Liangjiang Jinyu. Mae llawer o ddiddordebau gen i. Rwy'n hoffi chwaraeon yn fawr, fel rhedeg, nofio a chwarae tennis bwrdd. O'u plith, chwarae tennis bwrdd yw fy ffefryn. Rwy'n credu ei fod yn dda i fy iechyd. Gall chwarae tennis bwrdd fy helpu i i wella'r cydlyniant rhwng fy llaw a fy llygad, a chyflymu fy ymatebion.

Rwy'n credu bod fy niddordeb mewn tennis bwrdd yn dod gan fy nhad, oherwydd mae e'n mwynhau chwarae tennis bwrdd yn fawr. Bob penwythnos, rydyn ni'n mynd i faes chwarae'r ysgol i chwarae tennis bwrdd. Mae fy nhad yn dda iawn yn chwarae tennis bwrdd. Ond dydw i ddim yn dda iawn yn chwarae. Fel arfer, mae fy nhad yn dysgu'r ystumiau cywir i mi, ac yn rhoi cyngor ar sut i chwarae tennis bwrdd. Gydag amynedd ac ymdrechion fy nhad, mae fy nhechneg wedi gwella cryn dipyn. Nawr, galla i chwarae yn erbyn fy nhad.



Rwy'n mwynhau chwarae tennis bwrdd gyda fy nhad. Pan fydda i'n anhapus, bydda i'n teimlo'n dda wrth feddwl am chwarae tennis bwrdd gyda fy nhad. Yn ddiweddar, mae fy llygaid wedi gwella wrth edrych ar bethau agos. Dywedodd fy nhad wrtha i fod chwarae tennis bwrdd yn dda i fy ngolwg. Felly mae'n well gen i chwarae tennis bwrdd.

Ffrindiau annwyl, ydych chi'n hoffi chwarae tennis bwrdd?


Cofion gorau
Tommy



Fy hoff chwaraeon

Sglefrio ffigyrau yw fy hoff chwaraeon. Dechreuais ddysgu pan oeddwn i'n bum mlwydd oed, ac rydw i wedi bod yn gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf.


Dechreuodd fy niddordeb pan welais i safle sglefrio ia mewn canolfan siopa fawr. Roeddwn i'n mwynhau'r symudiadau ysgafn a hardd yn syth. Roedd hi'n anodd iawn pan ddechreuais i, roeddwn i'n methu sefyll ar yr iâ hyd yn oed. Ond ar ôl rhai blynyddoedd o ymarfer, a chwympo i'r llawr fwy o weithiau nag y galla i gyfri, galla i ei wneud yn dda o'r diwedd. Cymerais ran mewn cystadleuaeth, a des i'n gyntaf yn fy ngrŵp. Pan roddais fy ngwisg ymlaen a gwneud pob symudiad, cefais deimlad gwych o gyflawniad. Ar ôl hynny, cymerais ran mewn cystadleuaeth yn Bangkok, a fi oedd y pencampwr eto. Yn fy mherfformiad, rydw i wedi "actio" mewn gwahanol rolau, ac mae'r atgofion hynny'n gofiadwy i fi.




Rwy'n argymell y chwaraeon yma'n fawr, achos nid yn unig mae'n datblygu hyblygrwydd ein cyrff, ond mae hefyd yn dda i'r iechyd. Chwaraeon gaeaf yw e, ond mae pobl yn dal i'w fwynhau mewn safle sglefrio iâ. Ac i rywun sydd ddim eisiau cymryd rhan mewn sglefrio ffigurau, mae mwynhau gwylio perfformiad sglefrio hefyd yn ddewis da, ac mae ar y teledu yn aml.

Rwy'n gobeithio y gallwch chi ei fwynhau!

Peng Ziyun (彭子蕴),
Blwyddyn 6, Ysgol Gynradd Prifysgol Peking



Annwyl gyfaill,

Fy enw i yw Ma Kaiquan, ac rwy'n dod o Ysgol Gynradd Prifysgol Peking. Rwy'n mynd i'r ysgol o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac yn fy amser hamdden rwy'n chwarae pêl-droed bron bob dydd, achos dyma yw fy hoff chwaraeon.

Dysgais gan fy athrawon fod pêl-droed yn deillio o Tsieina dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, ond mae pêl-droed modern yn dod o Brydain, ac felly mae cysylltiad rhwng Tsieina a Phrydain drwy bêl-droed. Ar ôl datblygu am dros gan mlynedd, pêl-droed yw'r chwaraeon mwyaf poblogaidd yn y byd erbyn hyn.



Dywedodd fy nhad wrtha i mai'r Uwch Gynghrair yw un o'r goreuon yn y byd, ac rwy'n gwylio gemau pêl-droed y Gynghrair gyda fe yn aml. Manceinion Unedig yw fy hoff glwb, ond fy hoff seren yw Messi. Nawr mae e'n chwarae i Barselona, felly rwy'n gobeithio y gall Messi symud i Fanceinion Unedig ryw ddydd yn y dyfodol.



Hanes cymharol fyr sydd gan ddatblygiad pêl-droed yn Tsieina, ac nid yw ein tîm pêl-droed yn gystadleuol iawn, achos dim ond unwaith mae Tsieina wedi cymryd rhan yng Nghwpan y Byd. Er hynny, mae pêl-droed yn dal i fod yn boblogaidd iawn, ac mae pêl-droed ar y campws yn datblygu'n gyflym iawn. Mae tîm pêl-droed gan lawer o ysgolion, gan gynnwys ein hysgol ni, ac mae tîm pêl-droed gan ein dosbarth ni hyd yn oed.

Nawr rwy'n chwarae i dîm ein dosbarth, ac amddiffynnwr yw fy safle ar y cae. Rwy'n ceisio pob ffordd i'w hatal nhw rhag sgorio gôl bob tro. Fel arfer, rydyn ni'n hyfforddi yn ystod egwyl y prynhawn, ac rydyn ni'n hyfforddi'n galed iawn. Rwy'n gobeithio y galla i chwarae i dîm yr ysgol yn fuan iawn. Pan fydda i'n hŷn, rwy'n dymuno chwarae i dîm ein gwlad, a fy mreuddwyd fwyaf fyddai chwarae yn Old Trafford, cartref Manceinion Unedig. Rwy'n dymuno y bydd y freuddwyd hon yn dod yn wir.

Yr eiddoch yn gywir,
Ma Kaiquan (马凯荃),
Blwyddyn 6, Ysgol Gynradd Prifysgol Peking

BRITISH COUNCIL

Annwyl gyfeillion,

Rwy'n ddisgybl yn Nosbarth 6 Blwyddyn 4, Ysgol Gyngor Chongqing Liangjiang Jinyu, Chongqing, Tsieina. Fy enw i yw Lucy. Rwy'n hoff iawn o chwaraeon. Mae fy ymennydd yn gallu ymlacio go iawn ar ôl gwneud ymarfer corff. Sgipio rhaff yw fy ffefryn, oherwydd mae'n gallu fy ngwneud i'n hapus iawn.



Fel chwaraeon Tsieineaidd traddodiadol, mae sgipio rhaff yn ddiddorol iawn. Weithiau, rwy'n meddwl mai aderyn ydw i pan fydda i'n neidio dros y rhaff. Ar ôl ysgol, fel arfer rwy'n sgipio rhaff gyda fy ffrindiau. Rydyn ni'n cael amser da iawn pan fyddwn ni'n neidio gyda rhaff. Ond weithiau rwy'n teimlo ychydig yn flinedig. Rwy'n neidio rhaff bob dydd am fwy na deg munud. Galla i neidio hyd at 195 y funud.



Yn ddiweddar, cymerais ran yn y gystadleuaeth sgipaio rhaff yn ein hardal ni ar ran yr ysgol. Y diwrnod hwnnw, gwisgon ni ddillad chwaraeon taclus ac aethon ni i'r safle yn llawn cyffro. Roedden ni wedi paratoi'n llawn fel bod digon o hyder ganddon ni i ennill y gêm. Ond, doedd canlyniad y gystadleuaeth yma ddim yn dda iawn. Pan welson ni'r canlyniad, fe griodd llawer ohonon ni. Anogodd yr athro ni i ymarfer yn galed a'i wneud yn well. Yn wir, un funud ar y llwyfan a deg mlynedd o ymarfer oddi ar y llwyfan.


Rwy wir yn hoffi sgipio rhaff. Ffrindiau annwyl, rwy'n gobeithio y gallwch chi ymuno â ni a rhoi cynnig ar sgipio rhaff hefyd.

Yr eiddoch yn gywir,
Lucy (Luxi, Jiang)

Sglefrio

Annwyl gyfeillion:

Sut ydych chi? Fy enw i yw Amber, ac rwy'n ddisgybl yn Nosbarth 4, Blwyddyn 5, Ysgol Arbrofol YangJing-JuYuan Shanghai (洋泾菊园实验学校). Heddiw, rydw i eisiau eich cyflwyno i fy hoff chwaraeon - sglefrio. Rwy'n dal i gofio'r tro cyntaf i fy rhieni fynd â fi i wylio cystadleuaeth sglefrio ffigurau. Roedd y perfformiad yn anhygoel, ac fe wnaeth un o'r athletwyr argraff dda arna i, sef Yuzuru Hanyu, sglefriwr Siapaneaidd ardderchog. Ar ôl ei berfformiad, taflodd llawer o bobl Eirth Pooh ar yr iâ i ddangos eu cefnogaeth. Ers y diwrnod hwnnw, rydw i'n breuddwydio am gael bod yn sglefrwraig lwyddiannus, fel bod pobl yn gwneud yr un peth gwallgo'i fi.



Rheswm arall yw gan ei fod mor cŵl. Mae'n rhaid i chi wisgo gwisg sglefrio i gadw'n gynnes, ac mae'r wisg yn gwneud i chi edrych fel sglefrwraig broffesiynol. Mae fy nhad yn tynnu llawer o luniau ohona i, ac rwy'n hoffi sut rwy'n edrych yn y lluniau yma gan eu bod nhw'n edrych mor neis. A phan fydda i'n sglefrio ar yr iâ, rwy'n teimlo fel aderyn yn hedfan yn yr awyr. Galla i hyd yn oed droelli, neidio a dawnsio ar yr iâ, fel Elsa, cymeriad yn 'Frozen'. Ond mae sglefrio'n anodd. Dechreuais ddysgu pan oeddwn i'n 7 oed. I ddechrau, roeddwn i'n methu sefyll ac roeddwn i'n cwympo o hyd. Dywedodd mam wrtha i nad oedd llwybr byr tuag at lwyddiant. Yr un sy'n ymarfer fwyaf sy'n cael yr eirth Pooh. Ddwy flynedd wedi hynny, cofiais hyn wrth ymarfer, a nawr mae fy sgiliau sglefrio yn llawer gwell nag o'r blaen. Dydw i ddim yn ddigon da i fod yn athletwraig, ond galla i wirfoddoli i gasglu'r doliau wedi'u stwffio.

Efallai y galla i weld Yuzuru Hanyu eto yng Ngemau Olympaidd y Gaeaf 2020. Oherwydd byddan nhw'n cael eu cynnal yn Tsieina mewn dwy flynedd. Beth yw eich hoff chwaraeon chi?

Sincerely, Amber
October 31st 2018

# Dysgu mwy

Gobeithio bod eich disgyblion wedi mwynhau'r gweithgareddau yn y pecyn hwn. Mae sawl ffordd arall y gallwch gymryd rhan mewn gwaith rhyngwladol gyda Tsieina a gwledydd eraill:

**Dod o hyd i ysgol bartner**

Defnyddiwch ein hadnodd ar gyfer dod o hyd i ysgol bartner ar wefan Schools Online y British Council er mwyn cysylltu ag ysgolion yn Tsieina a llawer o wledydd eraill ledled y byd: http://bit.ly/1TnkJaG

**Cyfathrebu**

Defnyddiwch ein fforymau ac ardaloedd prosiect ar-lein gyda'ch ysgol bartner: http://bit.ly/1Q2ULLH

**Cael gafael ar adnoddau**

Edrychwch ar ein hadnoddau dysgu byd-eang, gan gynnwys gweithgareddau ystafell ddosbarth, fideos a chynlluniau gwersi: http://bit.ly/1TnkZGM

**Dysgu Tsieinëeg**

Croesawch Gynorthwyydd Iaith Tsieinëeg i'ch ysgol. Mae'n hawdd ei drefnu a gallwch rannu'r cynorthwyydd gydag ysgolion lleol eraill. Cefnogir y cynllun hwn gan HSBC a Sefydliad Confucius. Mae gwybodaeth am Raglen Astudio Gynradd Sefydliad Confucius ar gael yma:
http://bit.ly/2cVRnkI

I gael gwybod mwy am addysgu Tsieinëeg yn eich ysgol, cysylltwch â Rachel Andrews yn Sefydliad Ysgolion Confucius, Prifysgol Caerdydd:
Andrewsr11@cardiff.ac.uk

**Cyrsiau i ddisgyblion cynradd**

Mae'r cyrsiau poblogaidd hyn yn gyfle cyffrous i blant ysgolion cynradd (Blwyddyn 5) yng Nghymru a Lloegr ddysgu Tsieinëeg Mandarin a phrofi rhywfaint o ddiwylliant cyfoethog Tsieina. Cefnogir y cynllun hwn gan HSBC. Bydd y cyrsiau hyn:

- yn adeiladu ar y gwaith rydych yn ei wneud i gyflwyno iaith a diwylliant Tsieina yn eich ysgol
- yn helpu i gefnogi partneriaethau â Tsieina ac addysgu Mandarin
- yn ysbrydoli disgyblion i ddysgu Mandarin yn yr ysgol uwchradd.

I gael mwy o wybodaeth am sut i wneud cais, anfonwch e-bost i
chinaschools@britishcouncil.org

### Ennill cydnabyddiaeth

Cofrestrwch ar gyfer cynllun Dyfarniad Ysgolion Rhyngwladol clodwiw y British Council er mwyn cael achrediad am eich gwaith rhyngwladol: http://bit.ly/1XMYg8t

### Adnoddau blaenorol ar y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd

I ddod o hyd i'r pecynnau addysg sy'n cynnwys gweithgareddau ar gyfer blwyddyn y ceffyl, y ddafad, y mwnci, y ceiliog a'r ci, ewch i:
http://bit.ly/1QYMFnE, http://bit.ly/1sGs1xS

### Gwybodaeth am Tsieina

### Hanes Tsieina

- http://bit.ly/1I4qTaz

### Diwylliant Tsieina

- http://bit.ly/1f1pj0A

### Cyflwyniad i Tsieinëeg a chefnogaeth ar gyfer dysgu Tsieinëeg

- http://bbc.in/1OJomqv
- http://bit.ly/1IGugUP
- http://bit.ly/1MYOX2d

A chofiwch, blwyddyn nesaf yw Blwyddyn y...

British Council
10 Spring Gardens
Llundain SW1A 2BN

schools@britishcouncil.org
www.britishcouncil.org/schoolsonline

**© British Council 2018**
Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol.

Gallwch lawrlwytho copïau ychwanegol o'r pecyn hwn, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn:
https://schoolsonline.britishcouncil.org/classroom-resources/chinese-languages-and-culture
ymholiadau a rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Vicky Gough drwy
vicky.gough@britishcouncil.org